


# Dysgu oedolion yn y gymuned

## Cwestiynau hunanfyfyrio i gynorthwyo partneriaethau dysgu oedolion i wella cydweithio

- A yw rolau a chyfrifoldebau holl aelodau eich partneriaeth yn glir?
- A oes trefniadau digon ffurfiol i sicrhau nad yw cydweithio'n dibynnu gormod ar gysylltiadau proffesiynol personol rhwng unigolion?
- Ydych chi'n cynllunio darpariaeth yn effeithiol â'ch partneriaid? A yw'n ystyried:
    - lleihau dyblygu darpariaeth yn ddi-fudd?
    - sicrhau llwybrau dilyniant clir i ddysgu i'ch darpariaeth, oddi mewn iddi a'r tu hwnt iddi?
    - manteisio i'r eithaf ar allu pob partner a'r hyn y gall ddod ag ef i'r bartneriaeth?
- A yw eich prosesau hunanwerthuso a gwella ansawdd yn cynnwys pob partner?
- A yw gwybodaeth, deunyddiau cyhoeddusrwydd, y cyfryngau a deunyddiau hyrwyddol eich partneriaeth cyn cyrsiau yn rhoi gwybodaeth i ddarpar ddysgwyr am ddarpariaeth ym mhob partner?
- A yw eich partneriaeth yn gwneud defnydd priodol o sefydliadau sy'n gallu cynnig mewnbwn neu gymorth arbenigol, er enghraifft o ran cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg i oedolion sy'n dysgu yn y gymuned neu i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?